



CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU ASESIAD EFFAITH GYMUNEDOL

YMGYNGHORI AR Y CYNNIG I DROSGLWYDDO
SEFYDLIAD ADNODDAU ARBENIGOL YSGOL
GYNRADD LLANDOCHAU I YSGOL Y DDRAIG O
IONAWR 2023.



Mae'r ddogfen hon ar gael mewn Braille. Gellir darparu gwybodaeth hefyd mewn ieithoedd cymunedol eraill os oes angen. Cysylltwch â ni ar 01446 709828 i drefnu hyn.

CYNNWYS

Rhagymadrodd	1
Cyd-destun Cenedlaethol	1
CYD-Destun Polisi Lleol	1
Heriau Presennol	2
Proffil Cymunedol	2
Asesiad Effaith	4
Effeithiau ar y Gymuned Leol	6
Scoring Summary	9
Casgliadau	9

RHAGYMADRODD

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod holl ddisgyblion y Fro yn cael pob cyfle i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ysgolion yn parhau'n gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, ac yn meddu ar yr amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod ymgynghoriadau yn ystyrllon, yn berthnasol ac yn briodol i'r cymunedau dan sylw, ac mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod cynigion yn glir, yn dryloyw ac yn adlewyrchu'r rhai yr effeithir arnynt. Dyma weledigaeth na ellir ond ei gwreiddu trwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach yr ydym i gyd yn eu gwasanaethu.

Y cynnig hwn yw adleoli'r ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Llandochoau i Ysgol Y Ddraig o Ionawr 2023.

Ystyrir y cynnig hwn o dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae Adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cyfeirio at Newidiadau Rheoledig i ysgol, sy'n cynnwys trosglwyddo unrhyw ysgol i safle newydd.

CYD-DESTUN CENEDLAETHOL

Mae'r canllawiau statudol allweddol ar gyfer awdurdodau lleol wrth ddatblygu cynigion statudol ar gyfer newidiadau i drefniadaeth ysgolion yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Wrth ystyried cynigion rhaid i'r Cyngor ystyried yr effaith ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd a ddynodwyd ar gyfer rhaglenni cymunedau'n gyntaf neu raglenni olynol.

CYD-DESTUN POLISI LLEOL

Gan adleisio'r polisi cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi ymrwymo fel rhan o Gynllun Corfforaethol 2020-25 i gyflawni gweledigaeth o – **'Gweithio gyda'n gilydd i gael dyfodol mwy disglair'**.

Mae Bro Morgannwg wedi ymrwymo i gyflawni'r amcan o 'gefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy' gan godi safonau cyflawniad cyffredinol drwy foderneiddio addysg yn y Fro i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael addysg o'r radd flaenaf.

Er mwyn cyflawni hyn, credwn ei bod yn bwysig ein bod yn cefnogi canlyniadau addysgu a dysgu drwy ddarparu adeiladau modern ac addas i'r diben sy'n diwallu anghenion addysg gyfoes. Mae angen i ysgolion allu darparu'r profiad dysgu gorau posibl i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau sydd ar gael iddynt a'u bod yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.

HERIAU PRESENNOL

Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â nifer o heriau a byddai'n:

- Darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer disgyblion ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu o fewn amgylchedd ysgol gynradd prif ffrwd addas er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd eu llawn botensial.
- Darparu gwell amgylcheddau dysgu y gellir eu haddasu i newid ac a fydd yn herio ac yn cefnogi plant i gyrraedd eu llawn botensial.
- Yn darparu parhad yn y ddarpariaeth yn y Fro ar gyfer disgyblion ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu.
- Darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol drwy Ysgol Y Ddraig.
- Llai o ddibyniaeth ar ddarpariaeth gostus y tu allan i'r sir.

PROFFIL CYMUNEDOL

Ar hyn o bryd mae 5 ysgol yn gwasanaethu'r ardal o amgylch Ysgol Y Ddraig yn Llanilltud Fawr:

Enw ysgol	Math	Iaith	Ystod oedran	Cynhwysedd*	Lleoedd meithrin (rhan amser)	Pellter o Ysgol Y Ddraig (milltiroedd)
Sant Illtyd	Cymuned	CS	3-11	379	76	0.5
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Wig a Marcroes	Enwadol	CS	3-11	154	24	3.9
Ysgol Gynradd C Sant Helen'sl	Enwadol	CS	3-11	308	48	8.8
Ysgol Gymraeg Dewi Sant	Cymuned	CC	3-11	210	56	0.2
Ysgol Uwchradd Llanilltud Fawr	Cymuned	CS	3-16	1,050		0.1

Mae Ysgol Y Ddraig wedi'i lleoli o fewn ward Llanilltud Fawr sy'n cynnwys 7 Ardal Cynnyrch Ehangach Is (ACEI). Lleolir Ysgol y Ddraig yn Llanilltud Fawr 2 ac mae wedi'i hamgylchynu gan yr ACEI Llanilltud Fawr 1, 3, 4, 5, 6 a 7. Llanilltud Fawr 2 yw ardal ganolog Llanilltud Fawr

2 ac mae'n cynnwys y ganolfan ardal, safle'r ysgol ac ardaloedd preswyl o Lanilltud Fawr ym Mro Morgannwg, yn ne Cymru. Mae ardaloedd eraill Llanilltud Fawr yn ffurfio gweddill y dref, ac eithrio wardiau 3 a 5 sy'n ymwneud â chyrrion gwledig yr ardal.

Mae gan ward Llanilltud Fawr boblogaeth o 10,966 yn seiliedig ar amcangyfrifon canol blwyddyn 2020. Mae gan Lanilltud Fawr 2 boblogaeth o 1,564 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019).

Daw'r data isod ar gyfer ward Llanilltud Fawr o amgylch Ysgol Y Ddraig o [Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(FALC\)](#).

Ardal Etholaeth Bro Morgannwg	Côd FALC	Safle Cyffredinol Cymru (o 1909)		Safle Cyflogaeth (o 1909)		Safle Mynediad i Wasanaethau (o 1909)	
		Safle	% (Lleiaf / Mwyaf Difreintiedig)	Safle	% (LD / MD)	Safle	% (LD / MD)
Llanilltud Fawr 1	W01001106	1822	50% Lleiaf Amddifad	1747	50% Lleiaf Amddifad	1863	50% Lleiaf Amddifad
Llanilltud Fawr 2	W01001107	1655	50% Lleiaf Amddifad	1373	50% Lleiaf Amddifad	1732	50% Lleiaf Amddifad
Llanilltud Fawr 3	W01001108	1429	50% Lleiaf Amddifad	1244	50% Lleiaf Amddifad	631	30% - 50% Mwyaf Difreintiedig
Llanilltud Fawr 4	W01001109	1363	50% Lleiaf Amddifad	1188	50% Lleiaf Amddifad	802	30% - 50% Mwyaf Difreintiedig
Llanilltud Fawr 5	W01001110	1686	50% Lleiaf Amddifad	1844	50% Lleiaf Amddifad	453	20% - 30% Mwyaf Difreintiedig
Llanilltud Fawr 6	W01001111	815	30% – 50% Mwyaf Difreintiedig	694	30% - 50% Mwyaf Difreintiedig	807	30-50% Mwyaf Difreintiedig
Llanilltud Fawr 7	W01001112	1873	50% Lleiaf Amddifad	1805	50% Lleiaf Amddifad	1520	50% Lleiaf Amddifad

Fel y dengys y tabl uchod, mae'r wardiau o amgylch Ysgol Y Ddraig yn gymysg o ran lefelau amddifadedd. Mae'r ardal FALC y mae'r ysgol ynnddi yn un o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig ar draws y 3 mesur. Mae Ardaloedd 3 a 4 wedi eu hadnabod fel rhai sydd yn y 30% - 50% mwyaf difreintiedig ac Ardal 5 yn cael ei hadnabod fel 20% - 30% mwyaf difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau. Mae hyn yn adlewyrchu lleoliad mwy gwledig yr ardaloedd hyn lle bydd gwasanaethau yn gyffredinol yn fwy anodd eu cyrraedd. Mae Ardal 6 wedi'i nodi fel ardal 30% - 50% mwyaf difreintiedig ar draws yr holl fesurau. Mae'r ardaloedd sy'n weddill yn rhannu'r un proffil ag Ardal 2.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae trefniant dros dro ar waith ar hyn o bryd sy'n caniatáu i'r CAA ar gyfer Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu gweithredu y tu allan i Ysgol y Ddraig yn dilyn asesiad CAA Ysgol Gynradd Llandochoau o dan reoliadau Covid 19.

Ystyrir y byddai effaith gadarnhaol o ran ADY gan y byddai'r cynnig yn arwain at well darpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu oherwydd y gwelliant i amgylchedd ffisegol Ysgol y Ddraig sydd wedi'i ddatblygu o dan y Cynllun Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Rhaglen Ddysgu. Byddai'r cynnig yn cefnogi disgyblion i gael mynediad i addysg brif ffrwd gyda chymorth ychwanegol. Byddai hyn o fudd arbennig i'r disgyblion hynny na fyddent fel arfer yn bodloni'r meini prawf i fynychu YYD.

- Un o swyddogaethau allweddol yr CAA fyddai cefnogi gweithrediad polisïau a gweithdrefnau ysgol gyfan i gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i holl ddisgyblion Ysgol Y Ddraig.

ASESIAD EFFAITH

Mae'r rhan hon o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn asesu'r effaith bosibl y gallai'r cynnig hwn ei chael ar y gymuned leol. Mae'r wybodaeth a ddadansoddwyd yn y broses hon yn rhoi cipolwg o'r sefyllfa bresennol. Mae'r asesiad effaith yn ddogfen esblygol a fydd yn parhau i gael ei datblygu drwy gydol y broses statudol. Bydd adborth a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael ei ddefnyddio i lywio'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ymhellach, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori.

Mae wyth mesur allweddol wedi'u nodi:

Cyf.	Mesur
EC1	Mae plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol
EC2	Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol
EC3	Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol
EC4	Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan safle'r ysgol a gweithgaredd a wneir o fewn yr ysgol

EC5	Effaith ar fusnesau lleol
EC6	Effaith ar gyflogaeth leol
EC7	Effaith ar seilwaith lleol
EC8	Trefniadau cludiant

Aseswyd yr wyth mesur i nodi unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar y gymuned leol, a rhoddwyd sgôr yn amrywio o -3 i +3 yn seiliedig ar gydbwysedd y dystiolaeth a oedd ar gael.

Sgôr Mesur	Asesiad Mesur
-3	Dirywiad mawr
-2	Dirywiad cymedrol
-1	Ychydig o ddirywiad
0	Dim newid cyffredinol
1	Gwellhad Bach
2	Gwelliant Cymedrol
3	Gwelliant Mawr

EFFEITHIAU AR Y GYMUNED LEOL

Cyf.	Mesur	Sgôr	Effaith y Cynnig
EC1	Mae plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol	0	<p>Mae gosod y ganolfan adnoddau arbenigol mewn ysgol gynradd brif ffrwd yn darparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion sydd ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu wrth sicrhau y gallant gael mynediad i addysg gynradd brif ffrwd.</p> <p>Bydd adleoli'r ddarpariaeth ADY yn arwain at gollir CAA Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn Ysgol Gynradd Llandochau. Fodd bynnag, ni ddarperir darpariaeth ADY yn seiliedig ar agosrwydd at CAA, gyda disgyblion yn mynychu o bob rhan o'r Awdurdod.</p> <p>Byddai adleoli'r CAA yn darparu lle ychwanegol yn Ysgol Gynradd Llandochau gan ganiatáu i'r ysgol ddarparu ar gyfer y cynnydd a ragwelir ym mhoblogaeth disgyblion yr ardal. Disgwylir y byddai 209 o ddisgyblion yn mynychu Ysgol Gynradd Llandochau yn 2025 sydd yn agos at drothwy cynhwysedd ysgol o 210 o leoedd.</p>
EC2	Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol	0	Cynigir y byddai unrhyw wasanaethau cymunedol a ddarperir ar hyn o bryd gan Ysgol Gynradd Llandochau ac Ysgol Y Ddraig yn parhau ac na fyddai unrhyw ddarpariaeth yn cael ei cholli.
EC3	Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol	0	Ni fyddai unrhyw gollir mynediad i Ysgol Gynradd Llandochau ac Ysgol y Ddraig i gyfleusterau cymunedol o ganlyniad i'r cynnig hwn.

EC4	Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan safle'r ysgol a gweithgaredd a wneir o fewn yr ysgol	0	Ni fydd y cynnig yn newid y cyfleusterau cymunedol presennol a ddarperir gan y naill ysgol na'r llall.
EC5	Effaith ar fusnesau lleol	0	Ni fyddai unrhyw effeithiau ar fusnesau lleol o ganlyniad i'r cynnig hwn ynghylch Ysgol y Ddraig ac Ysgol Gynradd Llandochau.
EC6	Effaith ar gyflogaeth leol	0	Byddai staff presennol SRB Ysgol Gynradd Llandochau yn cael eu trosglwyddo i Ysgol Y Ddraig.
EC7	Effaith ar seilwaith lleol	0	<p>Ni fyddai'r cynnig yn arwain at gynnydd mewn cynhwysedd yn Ysgol y Ddraig a fyddai'n achosi mwy o bwysau ar seilwaith lleol. Yn hytrach, bydd y cynnig yn addasu i ystafelloedd dosbarth gwag presennol yn adeilad yr ysgol.</p> <p>Mae Ysgol Y Ddraig yn cefnogi teithio i'r ysgol trwy ddulliau teithio llesol megis cerdded a beicio lle bo modd. Byddai hyn yn ymestyn i ddisgyblion a staff ADY lle bo'n briodol. Byddai hyn yn helpu i liniaru'r pwysau ar seilwaith lleol.</p>
EC8	Trefniadau cludiant	0	<p>Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion o oedran ysgol statudol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded i'r ysgol briodol agosaf. Yn unol â 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008'.</p> <p>Darperir cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion cynradd prif ffrwd os ydynt yn byw 3 milltir neu fwy o'u hysgol addas agosaf.</p> <p>Fodd bynnag, bydd disgyblion ADY sydd â gofynion teithio penodol na ellir eu bodloni gydag addasiadau rhesymol ar gludiant prif ffrwd yn gymwys i gael cludiant am ddim os asesir bod ganddynt anawsterau difrifol</p>

			a/neu gymhleth ac yn mynychu ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol yn unol â chyfarwyddyd y Tîm Anghenion Cymhleth neu ddsbarth mewn ysgol brif ffrwd sydd 2 filltir neu fwy (disgyblion oed cynradd) o gyfeiriad cartref y rhieni yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.
--	--	--	---

SCORING SUMMARY

Cyf.	Cymuned Leol
CI1	0
CI2	0
CI3	0
CI4	0
CI5	0
CI6	0
CI7	0
CI8	0
Average Score	0

CASGLIADAU

Mae'r asesiad effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol ar draws 8 o'r 8 mesur a aseswyd. Yn gyffredinol, byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol.

Byddai'r cynnig yn darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer disgyblion ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu o fewn amgylchedd ysgol gynradd prif ffrwd addas er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd eu llawn botensial. Yn ogystal, byddai gan ddisgyblion a staff fynediad i amgylcheddau dysgu gwell sy'n gallu addasu i newid ac a fydd yn herio ac yn cefnogi plant i gyrraedd eu llawn botensial.

Daethpwyd i'r casgliad o'r Asesiad Effaith Cymunedol y byddai'r cynnig yn cael effaith niwtral ar y gymuned leol.